**X**—

(i) i fyfyriwr yng nghategori 1, yw £3,673;

(ii) i fyfyriwr yng nghategori 2, yw £6,648;

(iii) i fyfyriwr yng nghategori 3, yw £5,658;

(iv) i fyfyriwr yng nghategori 4, yw £5,658;

(v) i fyfyriwr yng nghategori 5, yw £4,745;

**Y** yw swm y grant cynhaliaeth.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliadau 43 i 48, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw y mae gan fyfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n flwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys yn hafal i (**X**−**Y**) ac—

**X**—

(i) i fyfyriwr yng nghategori 1, yw £3,324;

(ii) i fyfyriwr yng nghategori 2, yw £6,053;

(iii) i fyfyriwr yng nghategori 3, yw £4,920;

(iv) i fyfyriwr yng nghategori 4, yw £4,920;

(v) i fyfyriwr yng nghategori 5, yw £4,396;

**Y** yw swm y grant cynhaliaeth.

(4) Yn y rheoliad hwn, "swm y grant cynhaliaeth" ("*the maintenance grant amount*") yw'r canlynol—

(a) os oes gan y myfyriwr hawl o dan reoliad 36 i gael swm o grant cynhaliaeth nad yw'n fwy na £1,288, swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy;

(b) os oes gan y myfyriwr hawl o dan reoliad 36 i gael swm o grant cynhaliaeth sy'n fwy na £1,288, £1,288; ac

(c) os nad oes grant cynhaliaeth yn daladwy, dim.

**41.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr math 1 neu i fyfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon y mae ei gyfraniad yn uwch na dim.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 43 i 48, uchafswm y benthyciad at gostau byw, y mae gan fyfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd ac eithrio blwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs carlam, yw—

(a) i fyfyriwr yng nghategori 1, £3,673;

(b) i fyfyriwr yng nghategori 2, £6,648;

(c) i fyfyriwr yng nghategori 3, £5,658;

(ch) i fyfyriwr yng nghategori 4, £5,658;

(d) i fyfyriwr yng nghategori 5, £4,745.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliadau 43 i 48, uchafswm y benthyciad at gostau byw, y mae gan fyfyriwr y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs sy'n flwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs carlam, yw—

(a) i fyfyriwr yng nghategori 1, £3,324;

(b) i fyfyriwr yng nghategori 2, £6,053;

(c) i fyfyriwr yng nghategori 3, £4,920;

(ch) i fyfyriwr yng nghategori 4, £4,920;

(d) i fyfyriwr yng nghategori 5, £4,396.

**Myfyrwyr sydd â hawlogaeth wedi'i gostwng**

**42.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 43 i 48, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw, y mae gan fyfyriwr sydd â hawlogaeth wedi'i gostwng hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs ac eithrio blwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys, fel a ganlyn—

(a) os yw'r myfyriwr yn syrthio o fewn rheoliad 23(3)(a)—

(i) £1,744 i fyfyriwr yng nghategori 1;

(ii) £3,268 i fyfyriwr yng nghategori 2;

(iii) £2,324 i fyfyriwr yng nghategori 3;

(iv) £2,324 i fyfyriwr yng nghategori 4;

(v) £2,324 i fyfyriwr yng nghategori 5;

(b) os yw'r myfyriwr yn syrthio o fewn rheoliad 23(3)(c) neu 23(5)—

(i) £1,744 i fyfyriwr yng nghategori 1;

(ii) £3,268 i fyfyriwr yng nghategori 2;

(iii) £2,780 i fyfyriwr yng nghategori 3;

(iv) £2,780 i fyfyriwr yng nghategori 4;

(v) £2,324 i fyfyriwr yng nghategori 5;

(c) os yw'r myfyriwr yn gwneud cais am fenthyciad at gostau byw ac yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen i gyfrifo incwm ei aelwyd, swm hafal i (**X**−**Y**) ac—

**X**—

(i) i fyfyriwr yng nghategori 1, yw £2,755;

(ii) i fyfyriwr yng nghategori 2, yw £4,986;

(iii) i fyfyriwr yng nghategori 3, yw £4,244;

(iv) i fyfyriwr yng nghategori 4, yw £4,244;

(v) i fyfyriwr yng nghategori 5, yw £3,559;

**Y** yw'r swm a bennir ym mharagraff (ch).

(ch) y swm penodedig yw—

(i) £644, os myfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon yw'r myfyriwr, sy'n dewis peidio â darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer cyfrifo incwm yr aelwyd pan fo'n gwneud cais am grant cynhaliaeth a bod ganddo hawl i gael grant cynhaliaeth o £644;

(ii) £1,288, os myfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon yw'r myfyriwr, sy'n dewis peidio â darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer cyfrifo incwm yr aelwyd pan fo'n gwneud cais am grant cynhaliaeth a bod ganddo hawl i gael grant cynhaliaeth o £1,288;

(iii) dim, pan na fo'r myfyriwr yn fyfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon nac yn fyfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 43 i 48, mae uchafswm y benthyciad at gostau byw y mae gan fyfyriwr sydd â hawlogaeth wedi'i gostwng hawl i'w gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd cwrs sy'n flwyddyn derfynol cwrs nad yw'n gwrs dwys, fel a ganlyn—

(a) os yw'r myfyriwr yn syrthio o fewn rheoliad 23(3)(a)—

(i) £1,324 i fyfyriwr yng nghategori 1;

(ii) £2,498 i fyfyriwr yng nghategori 2;

(iii) £1,811 i fyfyriwr yng nghategori 3;

mae uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1) yn daladwy.

(b) os yw'r incwm perthnasol yn llai na £16,530, mae uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1) yn daladwy;

(c) os yw'r incwm perthnasol yn £16,530, mae uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(b) yn daladwy ynghyd â £50 yn llai nag uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(a);

(ch) os yw'r incwm perthnasol yn fwy na £16,530 ond yn llai na £24,925, mae uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(b) yn daladwy a swm y cymorth sy'n daladwy o dan reoliad 82(1)(a) yw'r swm a bennir yn unol â pharagraff (6);

(d) os yw'r incwm perthnasol yn £24,925, mae uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(b) yn daladwy a swm y cymorth sy'n daladwy o dan reoliad 82(1)(a) yw £50;

(dd) os yw'r incwm perthnasol yn fwy na £24,925 ond yn llai na £25,575, mae uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(b) yn daladwy ac nid oes cymorth yn daladwy o dan reoliad 82(1)(a);

(e) os yw'r incwm perthnasol yn £25,575 neu fwy ond yn llai na £27,615, nid oes cymorth ar gael o dan reoliad 82(1)(a) a swm y cymorth sy'n daladwy o dan reoliad 82(1)(b) yw'r swm sy'n weddill ar ôl didynnu o uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(b) £1 am bob £1.99 gyflawn o incwm perthnasol uwchlaw £25,575;

(f) os yw'r incwm perthnasol yn £27,615, nid oes cymorth yn daladwy o dan reoliad 82(1)(a) a swm y cymorth sy'n daladwy o dan reoliad 82(1)(b) yw £50;

(ff) os yw'r incwm perthnasol yn fwy na £27,615, nid oes cymorth yn daladwy o dan reoliad 82(1).

(6) Os yw paragraff (5)(ch) yn gymwys, pennir swm y cymorth sy'n daladwy o dan reoliad 82(1)(a) drwy ddidynnu o uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(a) un o'r symiau canlynol—

(a) £50 plws £1 arall am bob £15.69, £12.62 neu £9.82 cyflawn o incwm perthnasol uwchlaw £16,530 yn ôl a yw dwysedd yr astudio ar lefel 1, 2 neu 3, yn y drefn honno; neu

(b) os yw'r grant sylfaenol yn fwy na'r ffioedd gwirioneddol, swm sy'n hafal i'r hyn sy'n weddill ar ôl didynnu o'r swm a gyfrifwyd o dan is-baragraff (a) y gwahaniaeth rhwng y grant sylfaenol a'r ffioedd gwirioneddol (oni bai bod y swm yn rhif negyddol ac os felly mae uchafswm y cymorth sydd ar gael o dan reoliad 82(1)(a) yn daladwy).

(7) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae "plentyn" ("*child*") mewn perthynas â myfyriwr rhan-amser cymwys yn cynnwys unrhyw blentyn i'w bartner ac unrhyw blentyn y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto;

(b) ystyr "y flwyddyn ariannol gyfredol" ("*current financial year*") yw'r flwyddyn ariannol sy'n cynnwys diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae person yn cael ei asesu ar gyfer cymorth mewn perthynas â hi;

(c) ystyr "dibynnol" ("*dependent*") yw ariannol ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf;

(ch) ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o ddeuddeng mis y mae incwm y myfyriwr rhan-amser cymwys yn cael ei gyfrifiannu mewn perthynas â hi at ddibenion y ddeddfwriaeth ar dreth incwm sy'n gymwys iddo;

(d) ystyr "incwm" ("*income*") yw incwm gros o bob ffynhonnell heb gynnwys unrhyw gredydau treth a ddyfarnwyd yn unol ag unrhyw geisiadau o dan adran 3 o Ddeddf Credydau Treth 2002;

(dd) yn ddarostyngedig i is-baragraff (e), ystyr "partner" ("*partner*") yw unrhyw un o'r canlynol—

â gorchymyn llys o'r fath, mae hyn yn cael ei gynnwys wrth gyfrifo incwm aelwyd (mae paragraff 1(1)(l) ac 1(2) o Atodlen 5 yn cyfeirio at hyn).

Ym mharagraff 2(1)(i) o Atodlen 5, mae'r diffiniad o fyfyriwr cymwys annibynnol wedi'i ddiwygio: nid yw myfyriwr cymwys sy'n aelod o urdd grefyddol ac sy'n preswylio yn un o dai'r urdd honno yn cael ei ddosbarthu'n fyfyriwr cymwys annibynnol os yw'n dechrau ar y cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2009.

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraniadau "hollt" yn Atodlen 5, ac sy'n gymwys os defnyddir incwm yr aelwyd i asesu'r cymorth ar gyfer mwy nag un myfyriwr, wedi'u symleiddio i olygu, pan fo'r un incwm aelwyd yn cael ei ddefnyddio i asesu swm y cymorth y mae gan ddau neu fwy o fyfyrwyr hawl i'w gael, fod y cyfraniad ar gyfer pob myfyriwr cymwys yn cael ei rannu â nifer y myfyrwyr.

Mae Rhan 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu grantiau a benthyciadau.

Mae Rhan 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau dysgu dynodedig o bell.

Mae Rhan 12 ac Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymorth i gyrsiau rhan-amser. Yn ychwanegol at y grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser o dan reoliad 82, mae Rhan 12 o'r Rheoliadau yn darparu y caiff myfyrwyr cymwys rhan-amser hawl i gael "grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion" (a ddiffinnir yn rheoliad 2(1)).

Mae Atodlen 6, a fewnosodwyd yn Rheoliadau 2008 gan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2008, yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi prawf modd ar fyfyrwyr rhan-amser mewn perthynas â grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion. Mae Atodlen 6 wedi'i symleiddio yn yr ystyr bod unrhyw fyfyriwr rhan-amser y mae hawl ganddo i gael grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion yn agored i brawf modd (mae'r is-gategori "myfyriwr rhan-amser cymwys sy'n cyfrannu" yn Rheoliadau 2008 wedi'i hepgor yn y Rheoliadau hyn).

Mae newid wedi'i wneud i'r darpariaethau yn Atodlen 6 y mae incwm gweddilliol myfyriwr rhan-amser cymwys yn cael ei gyfrifo oddi tanynt (paragraff 3(1) o Atodlen 6): ni fydd tâl am waith a wnaed yn ystod unrhyw un o flynyddoedd academaidd cwrs y myfyriwr rhan-amser cymwys yn cael ei didynnu o incwm trethadwy'r myfyriwr rhan-amser.

Yn ychwanegol, mae newidiadau wedi'u gwneud i Atodlen 6 sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Atodlen 5 o'r Rheoliadau hyn i'r graddau y maent yn ymwneud â budd-daliadau o dan drefniant pensiwn (paragraff 1(1)(g) ac 1(2) o Atodlen 6); a symleiddio'r darpariaethau ynghylch cyfraniadau "hollt" (paragraff 6 o Atodlen 6).

Mae Rhan 13 yn gwneud darpariaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig sydd ag anableddau.

Mae Rhan 14 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2008 mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008 ond cyn 1 Medi 2009. Mae hepgor rheoliad 18(6) o Reoliadau 2008 yn golygu y caiff myfyrwyr sy'n syrthio o fewn paragraff 9 Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2008 hawl i gael grant ffioedd newydd. Mân newidiadau drafftio yw'r newidiadau eraill i Reoliadau 2008.